**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-487
Ein cyf/Our ref CS/01117/14

William Powell AC
Pwyllgor Deisebiadau i'r Cadeirydd

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

3 Medi 2014

Annwyl Bill

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynghylch cynnig eich Deisebwr i gyflwyno cronfa 'Cyllid Cymru ar gyfer tai' i dalu blaendaliadau prynwyr am y tro cyntaf.

Rwyf wedi edrych ar y fenter a awgrymwyd, ac er fy mod yn cytuno gyda'ch deisebwr bod fforddiadwyedd cartrefi yng Nghymru yn fater sydd angen ei ysytried ymhellach, rwy'n teimlo nad dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r problemau y mae prynwyr am y tro cyntaf yn eu hwynebu wrth iddynt geisio prynu ty.

Er bod cael mynediad i gyllid fforddiadwy a dod o hyd i flaendal yn ddwy elfen fu'n rhwystr i fod yn berchen ar dy, y broblem waelodol yw diffyg tai ledled y DU. Am y rheswm hwn, ers imi fod yn Weinidog Tai ac Adfywio y llynedd, fy mhrif flaenoriaeth fu edrych am ffyrdd o gynyddu lefel yr adeiladu ledled Cymru ar gyfer pob math o ddeiliadaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes gennyf unrhyw gynllun i edrych yn fanylach ar yr opsiwn a gyflwynwyd gan eich Deisebwr; fodd bynnag hoffwn glywed ei farn am y cyflenwad tai a'r rhwystrau i ddatblygu yng Nghymru.

A fyddech cystal ag anfon fy nghyfarchion at eich Deisebwr a diolch iddo am ei waith.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*